

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

BIL ESGYLL SIARCOD

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Aelod Preifat y DU yn gwneud darpariaeth berthnasol mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Esgyll Siarcod (“y Bil”), Bil Aelod Preifat, yn Senedd y DU, Tŷ'r Cyffredin, ar 15 Mehefin 2022. Cynhaliwyd cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar 16 Tachwedd. Mae'r holl gyfeiriadau at ddarpariaethau yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn fel y maent yn ymddangos yn y Bil fel y cytunwyd arnynt yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ac a gyhoeddwyd ar 16 Tachwedd. Mae'r Bil, fel y'i cyflwynwyd ac fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, i'w weld yn: [Cyhoeddiadau Bil Esgyll Siarcod — Biliau Seneddol – Senedd y DU](#)

Amcan(ion) polisi

3. Amcan polisi datganedig y Bil yw amddiffyn siarcod rhag arferion pysgota anghynaliadwy drwy wahardd mewnforio ac allforio cynhyrchion esgyll siarcod sydd wedi'u cael drwy arferion pysgota anfoesegol. Nid yw'r Bil yn gwahardd gwerthu na bwyta esgyll siarcod, dim ond mewnforio ac allforio esgyll siarcod a ddatgysylltwyd, h.y., y rhai a gafwyd drwy'r arfer o dynnu esgyll siarcod.

Crynodeb o'r Bil

4. Bil Aelod Preifat yw'r Bil, a gyflwynwyd gan Christina Rees AS, ac fe'i noddir gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA).
5. Mae'r Bil yn dilyn ymdrechion i gyflwyno darpariaethau tebyg yn y Bil Anifeiliaid Dramor a gafodd ei oedi wedyn gan Lywodraeth y DU yn 2021.
6. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer y meysydd canlynol:
 - a) Mae Cymal 1 yn gwahardd mewnforio ac allforio esgyll siarcod datgysylltiedig;
 - b) Mae Cymal 2 yn diwygio Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1185/2003 ar dynnu esgyll siarcod ar fwrdd llongau (y “Rheoliad Tynnu Esgyll Siarcod”);
 - c) Mae Cymal 3 yn darparu ar gyfer graddau, cychwyn a theitl byr y Bil;

- d) Mae'r Atodlen yn amlinellu'r broses i ymgeiswyr wneud cais am dystysgrif esemptio o'r gwaharddiad yng nghymal 1, yn ogystal â phŵer Gweinidogion Cymru fel yr awdurdod priodol i wrthod a dirymu tystysgrifau o'r fath, a gosod cosbau ariannol ar ymgeiswyr am ddarparu gwybodaeth gamarweiniol.

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

7. Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau canlynol yn y Bil oherwydd eu bod yn gwneud darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn arbennig lles a chadwraeth anifeiliaid.

Cymal 1: gwaharddiad ar fewnforio/allforio esgyll siarcod datgysylltiedig

8. Mae Cymal 1 yn gwahardd mewnforio ac allforio esgyll siarcod neu rannau o esgyll siarcod, neu bethau sy'n eu cynnwys, i'r/o'r Deyrnas Unedig yn dilyn eu mynediad i/symud o Brydain Fawr (cymal 1(1)). Nid yw'r gwaharddiad yn berthnasol lle mae'r esgyll siarcod ynghlwm yn naturiol â chorff y siarc ac mae'r corff yn gyfan i raddau helaeth (cymal 1(2)).
9. Mae'r Bil yn diffinio "esgyll siarcod" ("*shark fins*") fel "unrhyw esgyll neu rannau o esgyll siarc, heblaw am esgyll pectoral neu rannau o esgyll pectoral o forgath" ("*any fins or parts of fins of a shark, other than the pectoral fins or parts of pectoral fins of a ray*") ac mae "siarcod" ("*sharks*") yn cael eu diffinio fel "unrhyw bysgodyn o'r tacson Elasmobranchii" ("*any fish of the taxon Elasmobranchii*") (cymal 1(4)).
10. Barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad ar gyfer cymal 1, am ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn arbennig lles a chadwraeth anifeiliaid.

Cymal 2: diwygiad i Reoliad Tynnu Siarcod

11. Mae Cymal 2 yn diwygio'r Rheoliad Tynnu Esgyll Siarcod drwy gywiro gwall drafftio yn Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Dyframaethu (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) (OS 2019/753) ("Rheoliadau Trosi'r DU"), a drosodd y Rheoliad Tynnu Esgyll Siarcod i gyfraith y DU. Bydd y Bil yn diwygio'r Rheoliad Tynnu Esgyll Siarcod i wahardd datgysylltu esgyll siarcod gan longau pysgota'r DU mewn unrhyw ddyfroedd morwrol, a llongau pysgota nad ydynt o'r DU sy'n gweithredu yn nyfroedd y DU.
12. Cyn cael ei drosi, roedd y Rheoliad Tynnu Esgyll Siarcod yn gwahardd llongau'r UE rhag tynnu esgyll siarcod mewn unrhyw ddyfroedd morwrol ac unrhyw long bysgota rhag tynnu esgyll siarcod yn nyfroedd morwrol yr UE. Fodd bynnag, mae'r gwall drafftio yn Rheoliadau Trosi'r DU yn golygu, ar hyn o bryd, nad yw'r gwaharddiad ar dynnu esgyll siarcod o dan y Rheoliad Tynnu Esgyll Siarcod yn gymwys i longau pysgota nad ydynt o'r DU ac nad ydynt o'r UE yn nyfroedd morwrol y DU. Bydd y Bil yn

cywiro'r gwall hwn drwy ymestyn y gwaharddiad i "llongau pysgota'r DU mewn unrhyw ddyfroedd morwrol" a "llongau pysgota eraill yn nyfroedd y Deyrnas Unedig".

13. Barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad ar gyfer cymal 2, am ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn arbennig lles a chadwraeth anifeiliaid.

Cymal 3: pwerau cychwyn, a phwerau i wneud darpariaethau trosiannol / arbed

14. Mae'r Bil yn ymestyn i Gymru a Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon, ac yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig i wneud rheoliadau ar gyfer cychwyn y gwaharddiad yng nghymal 1 a'r Atodlen i'r Bil cymal 3(1) a (2)). Bydd cymal 2 o'r Bil yn dod i rym ddeufis ar ôl y dyddiad y mae'r Bil yn cael ei basio.
15. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig i wneud rheoliadau ar gyfer darpariaethau arbed a throsiannol (cymal 3(5)).
16. Mae Cymal 3 (ac eithrio cymal 3(5)) yn gymal nad yw'n weithredol ac nid yw'n cael unrhyw effaith gyfreithiol y tu hwnt i gychwyn y Bil a chadarnhau graddau, cwmpas a theitl y rheoliadau, ac o'r herwydd mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes angen gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol at ddibenion RhS 29.
17. Barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad ar gyfer cymal 3(5), am ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn arbennig lles a chadwraeth anifeiliaid.

Yr Atodlen

18. Mae'r Atodlen i'r Bil yn gwneud y ddarpariaeth ganlynol:
 - a) Tystysgrifau esemptio (paragraffau 1 a 2): mae mewnfario ac allfario esgyll siarcod wedi'u hesemptio o'r gwaharddiad yng nghymal 1 os yw'r "awdurdod priodol" (Gweinidogion Cymru yn unol â pharagraff 9) wedi dyroddi tystysgrif esemptio ar gyfer y mewnfario / allfario hwnnw. Rhaid i ymgeiswyr ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru a thalu unrhyw ffi sy'n ofynnol fel rhan o'r cais am dystysgrif esemptio. Rhaid i Weinidogion Cymru wrthod cais oni bai eu bod yn fodlon bod yr esgyll siarcod dan sylw yn cael eu defnyddio at ddibenion cadwraeth.
 - b) Dirymu a diwygio tystysgrifau esemptio (paragraff 3): caiff Gweinidogion Cymru ddirymu neu ddiwygio'r dystysgrif esemptio cyn y mewnfario/allfario os yw'n ymddangos bod yr ymgeisydd wedi darparu gwybodaeth anghywir yn ei gais (paragraff 3(1)). Rhaid i Weinidogion Cymru ddirymu tystysgrif esemptio os, cyn i'r mewnfario/allfario

ddigwydd, nad ydynt yn fodlon bellach bod y mewnfario/allfario at ddibenion cadwraeth (paragraff 3(2)).

- c) Pŵer i osod cosb ariannol ar ymgeiswyr am dystysgrif esemptio (paragraff 4): Caiff Gweinidogion Cymru osod cosbau ariannol ar ymgeiswyr am dystysgrifau esemptio os ydynt wedi darparu, er enghraifft, wybodaeth anghywir yn eu cais (paragraffau 4(1) a (2)). Mae hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i newid uchafswm y gosb ariannol o'r £3,000 presennol (paragraffau 4(3) a (4)). Rhaid gwneud rheoliadau o'r fath gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol (paragraff 4(6)).
 - d) Proses hysbysiad cosb (paragraffau 5 a 6): Cyn i Weinidogion Cymru roi cosb ariannol, rhaid iddynt ddyroddi hysbysiad cosb gychwynnol sy'n amlinellu'r gosb arfaethedig a'r seiliau ar ei chyfer; cynnig cyfle i'r ymgeisydd dalu swm i leihau ei atebolrwydd am gosb ariannol; cynnig cyfle i'r ymgeisydd gyflwyno sylwadau ysgrifenedig o fewn cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad cosb gychwynnol (paragraffau 5(1) i (3)). Rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu a ddylid gosod hysbysiad cosb derfynol ond nid cyn pen 28 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad yr hysbysiad cosb gychwynnol (cymal 5(4)). Gellir tynnu'r ddau hysbysiad yn ôl ar unrhyw adeg a rhaid i'r ddau nodi gwybodaeth benodedig fel hawl yr ymgeisydd i apelio (paragraffau 5(7) a 6(1)). Bydd cosbau na chaiff eu talu yn cael eu hadennill yng Nghymru a Lloegr fel pe baent yn daladwy o dan orchymyn y llys sirol (paragraff 8).
 - e) Hawl i apelio (paragraff 7): yn darparu hawl i apelio at Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Lloegr (**Tribiwnlys Haen Gyntaf**) yn erbyn penderfyniad Gweinidogion Cymru i wrthod neu ddirymu tystysgrif esemptio neu roi hysbysiad cosb derfynol (paragraff 7(1)). Ar apêl, gall y Tribiwnlys Haen Gyntaf gadarnhau penderfyniad Gweinidogion Cymru i ddirymu neu wrthod tystysgrif esemptio, neu ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi un neu ganslo penderfyniad i ddirymu un, neu ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ailystyried eu penderfyniad (paragraff 7(4)). Caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf hefyd amrywio, diddymu, neu gadarnhau swm yr hysbysiad cosb (paragraff 7(5)).
19. Barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad ar gyfer yr Atodlen, am ei bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn arbennig lles a chadwraeth anifeiliaid.

Barn Llywodraeth y DU am yr angen am gydsyniad

20. Rhannodd DEFRA gopi o'r Bil gyda Llywodraeth Cymru ar 11 Gorffennaf cyn yr Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf. Cafodd y Bil fel y'i cyflwynwyd yn y Senedd y DU ar 15 Mehefin ei baratoi heb unrhyw fewnbwn gan y Llywodraethau Datganoledig. Ar 19 Awst, ysgrifennodd y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Goldsmith o Richmond Park,

ataf i ar y cyd a'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd yn manylu ar ddadansoddiad Llywodraeth y DU o'r Bil o ran datganol. Roedd y llythyr hwn yn cydnabod bod y Bil wedi gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig a gofynnodd a fyddem yn cytuno, mewn egwyddor, i osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gerbron y Senedd.

21. Fel y nodir ym mharagraffau 7 i 18 uchod, mae ein dadansoddiad ein hunain o effaith y darpariaethau yn y Bil ar gyfer Cymru yn gytûn ag asesiad Llywodraeth y DU fel y manylir yn yr adran hon.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn dros Gymru yn y Bil Esgyll Siarcod

22. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi nodau ac amcanion y Bil, gan gydnabod yr angen am y darpariaethau hyn i wahardd esgyll siarcod a gafwyd drwy arferion anfoesegol "tynnu esgyll siarcod" rhag mynd i mewn i farchnadoedd y DU. Mae cadwraeth siarcod, a chadwraeth forol yn ehangach, yn bolisi allweddol i Lywodraeth Cymru a fy marn i yw bod y Bil hwn yn helpu i gyflawni'r nodau hyn ar lefel fyd-eang. Mae'r Bil, fel y'i drafftiiwyd ar hyn o bryd, yn anfon neges allweddol bod tynnu esgyll siarcod yn annerbyniol ac y byddai Cymru'n hoffi ymbellhau oddi wrtho.
23. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y budd o ran symud y Bil DU hwn yn ei flaen fel y bydd y darpariaethau'n gymwys ar yr un pryd ledled y DU. Nid oes Bil tebyg gan y Senedd wedi'i gynllunio yn y tymor byr na'r tymor canolig, a phe bai'r Bil yn mynd rhagddo heb Gymru neu ar amserlenni gwahanol, mae perygl y bydd bwlch rheoleiddiol rhwng y Bil yn dod i rym yng ngweddill y DU a Bil tebyg gan y Senedd yn dod i rym. Gallai hynny olygu bod porthladdoedd Cymru yn cael eu targedu ar gyfer mewnfario, gyda'r broses o ddosbarthu ymlaen i weddill y DU yn anodd ei hatal. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod mai Bil ledled y DU yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur i ddarparu dull rheoleiddio cyson ar fewnfario ac allfario esgyll siarcod datgysylltiedig ac arferion tynnu esgyll siarcod yng Nghymru.
24. Mae DEFRA wedi cynnig Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer defnyddio'r pwerau cychwyn yng nghymal 3, pan fo Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn cytuno i amserlen i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i gychwyn y darpariaethau perthnasol yn y Bil. Yn y cyd-destun hwn, er bod hwn yn faes datganoledig, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon i'r Bil wneud darpariaeth i Gymru ac i'r Ysgrifennydd Gwladol gadw'r pwerau cychwyn.
25. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod paragraff 7 o'r Atodlen i'r Bil yn rhoi hawl i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf mewn maes datganoledig y gallai, yn ddamcaniaethol, gael ei glywed gan dribiwnlys datganoledig. Fodd bynnag, nid oes tribiwnlys datganoledig priodol ar hyn o bryd i glywed apeliadau o dan y Bil, a byddai angen deddfwriaeth sylfaenol y DU i wneud darpariaeth ar gyfer tribiwnlys datganoledig o'r fath. Yn y cyd-

destun hwn, mae Llywodraeth Cymru'n fodlon i'r Bil wneud darpariaeth o'r fath, gan nodi y gallai Bil gan y Senedd yn y dyfodol ddiwygio'r Bil er mwyn dwyn apeliadau o'r fath gerbron tribiwnlys datganoledig yng Nghymru.

Goblygiadau ariannol

28. Mae swyddogion yn DEFRA wedi cynnal Asesiad Brysbennu Rheoleiddiol (RTA) yn archwilio'r effeithiau posibl y darpariaethau o fewn y Bil ar gyfer y DU gyfan. Mae dolen i'r RTA ar gael [yma](#).
29. Daeth y data a ddefnyddiwyd yn bennaf gan y Sefydliad Rheoli Morol (MMO) ac mae'n ymwneud â glaniadau ym mhorthladdoedd y DU gan longau'r DU a llongau tramor. Mae data glaniadau yn bwysig am eu bod yn amlinellu'r farchnad fewnol/allanol bosibl ar gyfer esgyll siarcod. Dim ond ar lefel y DU y mae'r data hyn ar gael, felly, ni fu'n bosibl mesur effaith yn benodol ar fusnesau Cymru.
30. Mae'r RTA wedi nodi 125 o borthladdoedd ar draws y DU sydd yn ôl yr adroddiadau wedi trin 'siarcod a morgwn' (a geir yn y tacson elasmobranchii) gydag Aberdaugleddau ac Abertawe yn y deg porthladd uchaf gyda glaniadau 2019 gwerth £59,641 a £20,708 yn y drefn honno. Ers 2018, mae cofnodion yn dangos bod y DU wedi allforio uchafswm o 12 tonnall o esgyll siarcod gwerth £216,000 i Sbaen yn bennaf a gwledydd eraill yn Ewrop.
31. Yn y mwyafrif o achosion mae'r glaniadau hyn yn ddamweiniol yn hytrach nag yn ddalfeydd wedi'u targedu, ac mae'r darpariaethau o fewn y Bil yn annhebygol o gael effaith ddifrifol ar y busnesau hyn yng Nghymru. At hynny, mae'n debygol i'r anifail cyfan gael ei lanio gan fod gweddill y carcass yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin ar gyfer abwyd mewn pysgodfeydd eraill.
32. Mae data ar gyfer esgyll siarcod a fewnforiwyd i'r DU heb eu dilysu oherwydd y polisi Esgyll sydd Ynglwm yn Naturiol (FNA) a oedd, i raddau helaeth, yn gwahardd mewnforio esgyll siarcod ac eithrio lwfans personol o hyd at 20kg.
33. Mae DEFRA wedi dod i'r casgliad bod y gost a amcangyfrifir i fusnesau'r DU yn £216,000 y flwyddyn (yn seiliedig ar ddata mewnforio/allforio Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi). Nid yw'n bosibl darparu ffigur ar gyfer Cymru oherwydd nad oes digon o ddata.

Casgliad

34. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil Aelod Preifat y DU hwn i atal unrhyw risg o amwyseddau cyfreithiol sy'n ymwneud â mewnforio ac allforio esgyll siarcod yn y DU a ffurfio masnach

anghyfreithlon o esgyll siarcod o fewn y DU. Rwy'n argymhell, felly, i'r Senedd roi ei chydysniad i gynnwys y darpariaethau perthnasol yn y Bil.

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
25 Tachwedd 2022